Canllawiau Ymgeisio Cam-wrth-gam

Taith – Llwybr 1: Symudedd

Blwyddyn alwad: 2022

Dyddiad cau:

Ddydd Iau 12 Mai 2022, 12 hanner dydd BST.

Fersiwn 1: 28 Chwefror 2022

Rheolaeth fersiwn

Bydd y tabl isod yn cofnodi unrhyw newidiadau i'r ddogfen hon.

Newid	Rhif tudalen yn y fersiwn blaenorol	Rhif tudalen yn y fersiwn hwn

Tabl cynnwys

Rheolaeth fersiwn 2
Tabl cynnwys 2
Ar gyfer pwy mae'r canllawiau cam-wrth-gam? 3
Cyn i chi ddechrau 3
Ffurflen gais 3
Llywio drwy'r ffurflen gais 4
Nodiadau canllaw ar lenwi eich ffurflen gais (tudalen 1 o 9) 4
Manylion y sefydliad(au) a chrynodeb o'r prosiect (tudalen 2 o 9) 6
Amcanion a gweithrediad y prosiect (tudalen 3 o 9) 8
Gweithgareddau prosiect (tudalen 4 o 9) 9
Hyrwyddo ymrwymiadau trawsbynciol Taith (tudalen 5 o 9) 10
Cyllideb (tudalen 6 o 9) 11
Polisi Preifatrwydd (tudalen 7 o 9) 12
Datganiad (tudalen 8 o 9) 13
Tudalen gyflwyno (tudalen 9 o 9) 13
Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais 13
Atodiad A - Gweithgareddau prosiect – ADDYSG OEDOLION, ADDYSG BELLACH ac ADDYSG A HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL 15
Atodiad B - Y meini prawf 20

Ar gyfer pwy mae’r canllawiau cam-wrth-gam?

Mae’r canllawiau hyn ar gyfer sefydliadau Cymreig hoffai ymgeisio am nawdd Llwybr 1 Taith – cyllid symudedd

Darllenwch y canllawiau hyn ar y cyd â chanllawiau rhaglen Taith gan ei fod yn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer eich sector yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y rhaglen, a fydd yn eich helpu i ysgrifennu eich cais.

Er mwyn ysgrifennu cais llwyddiannus, mae'n bwysig deall sut bydd eich cais yn cael ei asesu. A fyddech cystal â dod yn gyfarwydd â meini prawf asesu rhaglen Taith, y ceir manylion llawn amdanynt yn Atodiad B y canllawiau hyn neu yn adran 3a ‘Meini Prawf Asesu’ canllawiau’r rhaglen.

Sylwch mai dim ond un cais fesul sefydliad fesul llwybr sector y gellir ei gyflwyno o dan alwad Llwybr 1.

Ni all unigolion, fel dysgwyr, myfyrwyr, disgyblion neu bobl ifanc, wneud cais yn uniongyrchol am y cyllid a dylent siarad â'u sefydliad addysg i gael gwybod am gyfleoedd i ddysgu, astudio neu wirfoddoli dramor gyda Taith.

Cyn i chi ddechrau

Cyn i chi ddechrau eich cais, rydym yn argymell eich bod yn:

- Darllen adrannau perthnasol y canllaw rhaglen yn drylwyr;
- Gwirio i wneud yn siŵr bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais;
- Gwirio bod gan eich sefydliad ddigon o gapasiti ariannol a gweithredol;
- Parchu'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau;
- Ymgyfarwyddo â meini prawf asesu Llwybr 1 Taith;
- Gwylio y tiwtorialau a recordiwyd ymlaen llaw ar lywio a chwblhau eich cais.

Ffurflen gais

Rydym yn argymell eich bod yn darllen drwodd ac yn ymgyfarwyddo â’r cwestiynau ansoddol, a’r meini prawf asesu cyn dechrau llenwi’r ffurflen gais. Rhennir y cwestiynau ansoddol yn 3 adran:

- Amcanion y prosiect a gweithrediad
- Gweithgareddau prosiect; a
- Cyflawni tuag at ymrwymiadau trawsbynciol Taith.

Gallwch hefyd gyrchu a lawrlwytho copi o'r offeryn cyfrifo ar wefan Taith, a fydd yn eich galluogi i gyfrifo'ch cyllideb ar gyfer pob un o'r gweithgareddau rydych am wneud cais amdanynt.

Bydd hyn yn eich galluogi i weithio drwy'r adrannau o'n cais yn eich amser eich hun heb unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar-lein. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cyfan, copïwch a gludwch y cynnwys i'r adrannau perthnasol ar y ffurflen gais ar-lein a'i chyflwyno.

Sicrhewch fod cynrychiolydd cyfreithiol eich sefydliad wedi darllen a chymeradwyo'r cais cyn ei gyflwyno.

Llywio drwy'r ffurflen gais

Mae gan y ffurflen gais ar-lein hon 9 tudalen:

1. Nodiadau canllaw ar lenwi eich ffurflen gais
2. Manylion y sefydliad(au) a chrynodeb o'r prosiect
3. Amcanion y prosiect a gweithrediad
4. Gweithgareddau prosiect
5. Cyflawni tuag at ymrwymiadau trawsbynciol Taith
6. Cyllideb
7. Polisi preifatrwydd
8. Datganiad
9. Tudalen cyflwyno

Nodiadau canllaw ar lenwi eich ffurflen gais (tudalen 1 o 9)

Mae nifer o gamau rydym yn argymell eu cymryd cyn i chi wneud cais:

- Darllenwch ganllawiau'r rhaglen gan fod ynddo wybodaeth sector-benodol yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y rhaglen a fydd yn eich helpu i ysgrifennu eich cais.
- Defnyddiwch yr adnoddau ymgeisio ar ein gwefan fel y canllawiau ymgeisio cam wrth gam, y tiwtorial ffurflen gais a mwy.
- Ymgyfarwyddwch â'r cwestiynau ansoddol, y canllawiau ymgeisio Cam wrth Gam a lawrlwythwch gopi o'r offeryn cyfrifo. Bydd hyn yn eich galluogi i weithio drwy'r adrannau yn eich amser eich hun ac arbed wrth fynd ymlaen. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r holl fanylion a'ch bod yn hapus ei fod yn barod i fynd, copïwch a gludwch y cynnwys i'r adrannau perthnasol ar y ffurflen gais ar-lein a'i gyflwyno.
- Gwnewch nodyn o ddyddiad cau'r alwad ariannu a sicrhewch eich bod yn cyflwyno'r cais cyn y dyddiad hwn. Ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

Nodweddion y cais a hysbysiadau

- Bydd y bar ar frig y sgrin yn eich helpu i gadw cofnod o faint o'r ffurflen rydych wedi'i chwblhau: 0% yn gyflawn
- **Yn anffodus, nid oes gan y ffurflen hon fotwm 'Cadw' sy'n eich galluogi i gadw eich gwaith wrth i chi lywio drwy'r tudalennau. Fodd bynnag, gallwch arbed eich gwaith pan fyddwch yn gadael y ffurflen trwy glicio ar y botwm 'Gorffen yn ddiweddarach'.**
- **I adael y ffurflen a pharhau yn hwyrach**, cliciwch ar Cwblhau yn ddiweddarach (sydd i'w gael ar waelod pob tudalen). Bydd hyn yn arbed eich gwaith ar y gweill ac yn creu

dolen fel y gallwch ddychwelyd at eich cais yn ddiweddarach. I gael mynediad i'r ddolen, gallwch naill ai roi nod tudalen ar y dudalen neu ei hanfon i'ch e-bost trwy nodi'ch cyfeiriad e-bost.

- **Nodwch os gwelwch yn dda**:
  - Bydd y ddolen yn dod i ben ar yr un dyddiad â'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.
  - Os dymunwch anfon y ddolen i'ch cyfeiriad e-bost, mae'n bwysig bod yr e-bost yn cael ei fewnbynnu'n gywir. Ni fyddwn yn gallu darparu dolen i chi os yw'r uchod wedi'i nodi'n anghywir.

- Mae meysydd gorfodol wedi'u nodi fel * Gofynnol. Ni fyddwch yn gallu symud ymlaen i'r tudalen nesaf nes bod yr holl feysydd gorfodol ar dudalen wedi'u cwblhau. Os na chwblheir maes gorfodol, bydd hysbysiad yn ymddangos (chwith uchaf) a bydd unrhyw feysydd gorfodol a gollwyd ar y tudalen yn cael eu nodi fel Gofynnol
- Gallwch arddangos mwy o wybodaeth am gwestiynau penodol trwy glicio ar Mwy o wybodaeth
- Gallwch gopïo testun i'r ffurflen o ddogfennau ar-lein ac all-lein eraill.
- Os eir y tu hwnt i'r terfyn nodau ar gyfer adran, bydd hysbysiad yn ymddangos uwchben y maes perthnasol, er enghraifft: Ni ddylai eich ateb fod yn fwy na 2500 nod o hyd.
- I symud i'r tudalen nesaf, cliciwch Nesaf (gwaelod ar y dde)
- Gallwch symud yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau gorffenedig trwy glicio ar y botymau Blaenorol (gwaelod chwith) a Nesaf (dde gwaelod).
- Peidiwch â cheisio symud drwy'r tudalennau gyda botymau 'ymlaen' ac 'yn ôl' eich porwr gan y bydd hyn yn eich tynnu allan o'r ffurflen gais.

Rhannu'r ffurflen gais

Os ydych chi am rannu'r cais gyda'ch cynrychiolydd cyfreithiol neu gydweithwyr eraill, cliciwch ar Cwblhau yn ddiweddarach (gwaelod y dudalen).

Bydd hyn yn arbed eich gwaith ar y gweill ac yn creu dolen y gallwch ei rhannu ag eraill.

Byddwch yn ymwybodol y bydd gan bobl sy'n cyrchu'r ffurflen trwy'r ddolen a gynhyrchir yr un hawliau â chi a gallant olygu a chyflwyno'r ffurflen.

Manylion y sefydliad(au) a chrynodeb o'r prosiect (tudalen 2 o 9)

Yn yr adran hon, rhowch fanylion am eich sefydliad, y cynrychiolydd cyfreithiol, a'r person(au) cyswllt. Bydd angen i chi hefyd ddewis hyd eich prosiect a darparu crynodeb o'r prosiect. Os ydych yn gwneud cais fel consortiwm, bydd angen i chi roi ychydig o fanylion am bob un o'ch partneriaid.

Manylion y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais

Enw'r sefydliad **Gofynnol*

Maes testun rhydd yw hwn. Rhowch enw eish sefydliad ar y maes hwn.

Enw'r sefydilad **Gofynnol*
(ddim yn berthnasol i bob sector)

Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'r math o sefydliad orau. Ar gyfer rhai sectorau, fel Darparwyr Addysg Bellach, bydd cwestiwn(cwestiynau) canghennog i ddisgrifio math y sefydliad ymhellach yn ymddangos.

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig **Gofynnol*

Manylion y cynrychiolydd cyfreithiol

Rhowch fanylion cyswllt eich cynrychiolydd cyfreithiol drwy ddefnyddio'r maes testun rhydd neu feysydd botymau radio. Dylai cynrychiolydd cyfreithiol fod yn berson sydd â'r awdurdod i awdurdodi ymrwymiad cyfreithiol ar ran eich sefydliad. Mae'r meysydd canlynol yn ofynnol:

Teitl
Enw cyntaf
Cyfenw
Swydd yn y sefydliad
Ebost
Rhif ffôn

Manylion cyswllt ychwanegol

Rhowch eich manylion cyswllt drwy ddefnyddio'r maes testun rhydd neu feysydd botymau radio.

Bydd y person cyntaf a restrir yn cael ei ddefnyddio fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y cais rhwng Taith a'r sefydliad sy'n ymgeisio. Gellir ychwanegu hyd at 3 cyswllt ychwanegol.

Mae'r meysydd canlynol yn ofynnol

Teitl
Enw cyntaf
Cyfenw
Swydd yn y sefydliad
Ebost
Rhif ffôn

Gwybodaeth ychwanegol

Hyd y prosiect (mewn misoedd) – dewiswch hyd eich prosiect.

Hyd y prosiect yw cyfanswm yr amser y gall gweithgareddau'r prosiect ddigwydd ynddo, ac mae'n cynnwys y cyfnod cynllunio, y symudedd ei hun ac unrhyw werthusiad.

Gellir cael gwybodaeth am isafswm ac uchafswm hyd y prosiect cymwys yng nghanllawiau'r rhaglen.

Ydych chi'n cyflwyno cais ar ran consortiwm? Os felly, rhowch fanylion pob sefydliad sy'n aelod o'r consortiwm.
(ddim yn berthnasol i bob sector)

Dewiswch Ie neu Nage. Os dewisoch 'Ie', atebwch y cwestiynau ansoddol canlynol os gwelwch yn dda:

- Enw partner 1 o fewn y consortiwm
- Ebost
- Ydych chi am ychwanegu mwy o bartneriaid?
- Cadarnhewch a ydy'r sefydliad wedi'i gofrestru ac yn gweithredu yng Nghymru
- Gan mai chi yw arweinydd y consortiwm, nodwch eich cysylltiad â'r sefydliadau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y cais hwn? Beth yw'r rhesymau dros wneud cais fel consortiwm?

Mae consortiwm yn cyfeirio at ddau neu fwy o sefydliadau sy'n cydweithio i ddatblygu a chyflawni prosiect neu weithgaredd o fewn prosiect. Ar gyfer **prosiectau Llwybr 1 Taith**, mae angen i bob sefydliad o fewn consortiwm fodloni meini prawf penodol y sector yn ymwneud â sefydliadau cymwys sy'n cyflwyno cais, fel yr amlinellir yn y Canllaw Rhaglen. Mae angen i bob sefydliad o fewn consortiwm fod wedi'i gofrestru a bod yn gweithredu yng Nghymru.

Crynodeb o'r prosiect

Rhowch grynodeb o'ch prosiect. Dylai fod yn addas i'w gyhoeddi a chynnig trosolwg cryno a chlir o'r amcanion, y gweithgareddau, a phwy yr ydych am ei weld yn cymryd rhan yn eich prosiect.

Dylid ysgrifennu crynodebau prosiect mewn Cymraeg clir a syml a chynnwys gwybodaeth am holl elfennau allweddol eich prosiect.

Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

< Blaenorol | Nesaf >

Cwblhau yn ddiweddarach

Amcanion a gweithrediad y prosiect (tudalen 3 o 9)

Mae'r cwestiynau ar y dudalen hon yn ymwneud â'r prosiect cyfan. Dylai atebion gynnwys digon o fanylion i ddangos bod y prosiect wedi cael ei ystyried yn drwyadl, bod gennych gynllun clir ynghylch gwledydd a phartneriaethau, ac y bydd eich sefydliad yn gallu rheoli'r gwaith o weinyddu, cynllunio a monitro'r prosiect i safon uchel.

Rhaid ateb pob un o'r 6 chwestiwn gorfodol.

Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y prosiect a sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â strategaeth a blaenoriaethau eich sefydliad/consortiwm?
E.e. Sut mae'r prosiect yn mynd i'r afael ag anghenion eich sefydliad(au), staff a disgyblion mewn ffordd glir ac ymarferol? Sut bydd y prosiect yn cynyddu cwmpas rhyngwladol eich sefydliad(au)?

Dim mwy na 5000 o nodau yn yr adran hon.

Pa wledydd a sefydliadau fydd eich sefydliad(au) yn eu targedu yn bennaf wrth fynd ati i greu partneriaethau rhyngwladol?
E.e. Beth sy'n arbennig am y wlad hon/gwledydd hyn fydd yn cynnig y cyfleoedd dysgu yr ydych am eu rhoi i'r rhai sy'n cymryd rhan ar draws y gweithgareddau arfaethedig? Oes gennych chi bartneriaethau yn y wlad hon/gwledydd hyn ar hyn o bryd? Os oes, beth sy'n eu gwneud yn bartneriaid addas ar gyfer y prosiect a'r gwahanol weithgareddau? Os nad oes, pa fath o bartner(iaid) yr ydych chi'n awyddus i weithio gyda nhw a pham? Sut byddwch yn eu nodi ac yn ymgysylltu â nhw? Ydych chi'n bwriadu ehangu nifer a/neu'r mathau o bartneriaid rhyngwladol drwy gydol cyfnod y prosiect?

Dim mwy na 5000 o nodau yn yr adran hon.

Sut mae eich sefydliad/consortiwm yn bwriadu cydlynu a chefnogi'r gwaith o hwyluso symudedd mewnol gan bartneriaid rhyngwladol fydd yn cael eu cynnal yn eich sefydliad/consortiwm, os yw'n berthnasol?

E.e. Sut bydd eich sefydliad(au) yn targedu ac yn blaenoriaethu partneriaid rhyngwladol er mwyn cefnogi symudedd mewnol? Sut bydd y rhai fydd yn dod i'r wlad i gymryd rhan yn cael eu dewis? Sut byddwch yn eu cefnogi drwy gydol eu cyfnod yma?

Dim mwy na 5000 o nodau yn yr adran hon.

Amlinellwch allu gweinyddol eich sefydliad a'r prosesau i reoli'r prosiect a'r cyllid grant.
E.e. Sut bydd eich sefydliad yn rheoli gwahanol agweddau a chyfnodau'r prosiect, o gynllunio a pharatoi i reoli dull cyflwyno gweithredol, cyfathrebu a chydweithio â phartneriaid, rheoli arian a chydymffurfio, rheoli risg, monitro, cadw cofnodion ac adrodd? Pa adnoddau staff sydd/fydd ar waith i wneud hyn? Nodwch sut byddwch yn rheoli taliadau i unigolion fydd yn cymryd rhan (gan gynnwys y rhai fydd yn dod o bartneriaid allanol), lle bo hynny'n berthnasol? Os ydych yn gwneud cais ar ran consortiwm, rhowch fanylion cyfrifoldebau eich sefydliad a'ch partneriaid.

Dim mwy na 5000 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch yn monitro cynnydd gweithgareddau eich prosiect ac yn mesur llwyddiant eich prosiect yn gyffredinol?
E.e. Sut byddwch yn monitro symudedd ac yn cofnodi unigolion sy'n cymryd rhan? Sut byddwch chi'n casglu adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan? Sut byddwch chi'n asesu safon deilliannau a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod yn ffurfiol, lle bo hynny'n berthnasol? Sut byddwch yn gwerthuso effaith a manteision y prosiect i ddisgyblion, staff a'r sefydliad(au) ac yn rhannu canfyddiadau (gan gynnwys gwersi a ddysgwyd) ar draws y sefydliad(au)?

Dim mwy na 5000 o nodau yn yr adran hon.

Beth, yn eich barn chi, yw'r prif risgiau o ran cyflwyno'r prosiect a sut byddwch chi'n mynd ati i reoli'r rhain?
E.e. Er enghraifft, pandemig parhaus COVID-19 ac unrhyw gyfyngiadau teithio, anawsterau gyda phartneriaid, recriwtio pobl i gymryd rhan, ac ati. Rhowch fanylion ar gyfer symudedd mewnol ac allanol lle bo hynny'n briodol.

Dim mwy na 3500 o nodau yn yr adran hon.

‹ Blaenorol

Nesaf ›

Cwblhau yn ddiweddarach

Gweithgareddau prosiect (tudalen 4 o 9)

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi gynnig disgrifiad manwl o weithgareddau eich prosiect. I gwblhau'r dudalen hon, dewiswch y gweithgareddau symudedd rydych yn bwriadu eu cynnig fel rhan o'ch prosiect. **Rhaid dewis o leiaf un gweithgaredd ac un is-weithgaredd.** Bydd pob gweithgaredd a ddewisir yn agor cwestiynau meintiol ac ansoddol pellach.

< Blaenorol Nesaf >

Cwblhau yn ddiweddarach

Hyrwyddo ymrwymiadau trawsbynciol Taith (tudalen 5 o 9)

Mae gan Taith nifer o ymrwymiadau trawsbynciol y mae'n rhaid eu hymgorffori ym mhob prosiect. I gefnogi ansawdd eich atebion, darllenwch yr adran isod, sy'n esbonio ystyr pob cwestiwn yn fanylach.

Rhaid ateb pob un o'r 5 cwestiwn gorfodol

Sut byddwch chi'n hyrwyddo Taith yn eich sefydliad/consortiwm a gyda sefydliadau partner mewn modd cynhwysol. Sut byddwch chi'n sicrhau bod staff a/neu bobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn teimlo eu bod yn cael eu helpu i gymryd rhan?

E.e Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cyfle(oedd) o fewn eich sefydliad/consortiwm. Dylai'r atebion nodi sut y byddwch yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr posibl (gan gynnwys y rhai sy'n anos eu cyrraedd) yn cael gwybod am y cyfle(oedd) a'r hyn y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod darpar gyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwahodd a'u bod yn gallu cymryd rhan.

Dim mwy na 3500 o nodau yn yr adran hon.

Pa fesurau penodol fyddwch chi'n eu cymryd i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a'r rhai o grwpiau eraill heb ddigon o gynrychiolaeth, i gymryd rhan drwy gydol cyfnod eich prosiect a'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar ei gyfer?

E.e. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â sut y bydd eich sefydliad wedyn yn cefnogi'r cyfranogwyr sydd wedi cynnig eu hunain/wedi cael eu dewis ar gyfer symudedd. Dylai'r atebion nodi sut a beth y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod y cyfranogwyr hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn drwy gydol y prosiect, gan gynnwys unrhyw gymorth penodol i gyfranogwyr ag anghenion ychwanegol.

Dim mwy na 3500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch yn sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith yn ystod symudedd allanol a mewnol ac yn ystod cyfnewidfeydd rhithiol? Sut byddwch yn sicrhau bod sefydliadau partner yn barod i gynorthwyo pawb sy'n cymryd rhan?

E.e. Dylai atebion i'r cwestiwn hwn nodi sut a pha fesurau y bydd eich sefydliad yn eu cymryd i sicrhau diogelwch/dyletswydd gofal y rhai sy'n cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys yr hyn y bydd eich sefydliad a'ch sefydliad(au) partner yn ei wneud. Lle nad oes gennych

sefydliad(au) partner eisoes, nodwch sut y byddwch yn dewis ac yn gweithio gyda'r partner i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni a beth fydd eich disgwyliadau ohonynt.

Dim mwy na 3000 o nodau yn yr adran hon.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys codi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar sut y byddwch yn cyflawni'r uchod – yng Nghymru a thramor.

Dim mwy na 3000 o nodau yn yr adran hon.

Pa fesurau penodol fydd eich prosiect yn eu cymryd i annog arferion amgylcheddol cynaliadwy, gan gynnwys teithio cynaliadwy?

Dylai atebion i'r cwestiwn hwn fanylu ar unrhyw gynlluniau sydd gan eich sefydliad i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd.

Dim mwy na 3500 o nodau yn yr adran hon.

‹ Blaenorol

Nesaf ›

Cwblhau yn ddiweddarach

Cyllideb (tudalen 6 o 9)

Mae'r dudalen hon yn manylu ar y gyllideb ar gyfer yr holl gyfranogwyr ar gyfer eich holl weithgareddau arfaethedig. Rydym yn deall yr heriau o amcangyfrif cyllidebau, fodd bynnag, rhowch gymaint o fanylion â phosibl drwy ateb y cwestiynau ar dudalen gweithgareddau'r Prosiect (3) i gyfiawnhau eich gofynion cyllideb rhagamcanol.

Defnyddiwch yr offeryn cyfrifo y gellir ei lawrlwytho i gyfrifo'r gyllideb ar gyfer y gweithgareddau rydych yn eu cynllunio a'u mewnbynnu i'r adran berthnasol ar y tudalen hwn. Rhaid i'r gwerthoedd a nodir ar y tudalen hwn gyfateb i'r gwerthoedd yn yr offeryn cyfrifo felly gwiriwch hyn ddwywaith cyn ei gyflwyno. Os bydd cyfansymiau'r gyllideb yn wahanol rhwng eich cais a'r offeryn cyfrifo, bydd y gwerthoedd a nodir ar eich cais ar-lein yn cael blaenoriaeth ac yn cael eu hystyried fel y swm grant y gofynnir amdano.

I ddeall y fformiwla gyfrifo sydd wedi'i hymgorffori yn yr offeryn cyfrifo, edrychwch ar ganllaw'r rhaglen i gael gwybodaeth fanwl am gategorïau cyllideb a symiau grant cymwys sy'n berthnasol i'ch sector.

Ar gyfer unrhyw weithgareddau NAD ydych yn gwneud cais amdanynt, rhowch 0 yn y maes(au) cyllideb perthnasol.

Sut i ddefnyddio'r Offeryn Cyfrifo Cyllideb:

Mae gan bob sector eu hofferyn cyfrifo eu hunain y gellir ei lawrlwytho o wefan Taith ac sy'n llawn gweithgareddau a chyfraddau grant sy'n gymwys i'w sector.

Mae yna sawl tab. Mae'r tab cyntaf **'Gwybodaeth'** wedi'i neilltuo i nodiadau canllaw ar ddefnyddio a chwblhau'r offeryn tra bod y tab olaf '**Crynodeb o'r gyllideb**' yn dabl wedi'i lenwi'n awtomatig y mae'n rhaid copïo gwerthoedd perthnasol ohono a'i ludo i dudalen 6 y ffurflen gais ar-lein – Cyllideb.

Rhaid defnyddio'r tabiau canol er mwyn cyfrifo'r gyllideb ar gyfer pob gweithgaredd rydych yn bwriadu ei wneud yn ystod eich prosiect. Er mwyn llywio'n hawdd, mae teitlau'r tabiau canol yn cyfateb i'r gweithgareddau cymwys ar gyfer eich sector. Defnyddiwch y celloedd gwyn yn unig, trwy fewnosod gwerth neu ddewis opsiwn, er mwyn cyfrifo cost eich gweithgaredd. Mae'r celloedd llwyd wedi'u cloi ac yn cynnwys fformiwlâu cyfrifo na ellir eu newid.

Pwysig: nodwch y bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'ch cyllideb (offeryn cyfrifo) ymholiadau@taith.cymru ar ôl i chi gyflwyno'ch cais. Ceir rhagor o ganllawiau ar sut i wneud hyn ar y dudalen Gyflwyno.

< Blaenorol | Nesaf >

Cwblhau yn ddiweddarach

Polisi Preifatrwydd (tudalen 7 o 9)

Gwnewch yn sicr eich bod yn darllen y polisi preifatrwydd gan ei fod yn darparu esboniad manwl o sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gawn ganddoch.

Ar ôl i chi ddarllen yr adran hon a chytuno â'r cynnwys, dewiswch Ydw.

Mae rhaid cwblhau'r meysydd gofynnol isod:

Rwy'n cydsynio i'm data gael eu cadw at y dibenion a nodir uchod.
Dewiswch Ydw

< Blaenorol | Nesaf >

Cwblhau yn ddiweddarach

Datganiad (tudalen 8 o 9)

Mae'r adran hon ar gyfer cynrychiolydd awdurdodedig cyfreithiol y sefydliad i gadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon yn gywir.

Darllenwch y datganiad yn ofalus a dilynwch y camau ar dudalen 1 'Rhannu'r ffurflen gais' i roi mynediad i'ch cynrychiolydd cyfreithiol i'r ffurflen.

Rhaid i'r unigolyn sydd wedi llofnodi isod fod yn berson sydd wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol i lofnodi dogfennaeth ar ran y sefydliad sy'n ymgeisio.

Os yw enw'r cynrychiolydd cyfreithiol neu enw'r sefydliad sy'n ymgeisio a ddangosir yn yr adran hon yn anghywir, golygwch fanylion y Sefydliad(au) a gwybodaeth grynodeb y prosiect ar dudalen 2 y ffurflen hon. Os yw cyfanswm gwerth y grant y gofynnwyd amdano a ddangosir yn y ffurflen hon. os yw'r adran yn anghywir, golygwch y wybodaeth am y Gyllideb ar dudalen 6 y ffurflen hon.

Mae rhaid cwblhau'r meysydd gofynnol isod:

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon yn gywir
Dewiswch Ydw

Cwblhau yn ddiweddarach

Tudalen gyflwyno (tudalen 9 o 9)

Dyma'ch cyfle olaf i wirio pob agwedd ar eich cais cyn i chi gyflwyno. Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai na fydd ceisiadau'n cael eu hailgyflwyno. Unwaith y byddwch yn fodlon â phob agwedd ar eich cais, cyflwynwch eich ffurflen trwy glicio ar

(dde gwaelod).

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais

Mae eich cyfeirnod cais unigryw wedi'i nodi isod fel y rhif derbynneb ynghyd â'r dyddiad a'r amser y cyflwynwyd y cais. Cadwch hwn er gwybodaeth yn y dyfodol.

Sylwch mai **dim ond 15 munud fydd gennych i lawrlwytho copi PDF o'ch cais.**



Awgrym: i agor yr ymatebion mewn tab newydd neu dudalen newydd, de-gliciwch ar "Fy ymatebion" a dewiswch.

Bydd fersiwn PDF yn cael ei lawrlwytho y gallwch ei gadw ar gyfer eich cofnodion. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r PDF cyn gadael ffenestr y porwr**.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, rhaid i chi hefyd gyflwyno copi o'ch cyllideb prosiect (offeryn cyfrifo).

Er mwyn i ni allu paru cyllideb eich prosiect â'ch cais, dyfynnwch gyfeirnod unigryw eich cais (rhif derbynneb) ym mhwnc eich e-bost. e.e. 'Copi o gyllideb y prosiect ar gyfer XXXXXX-XXXXXX-XXXXXXXX.

Rhaid cyflwyno copi o gyllideb eich prosiect (offeryn cyfrifo) i ymholiadau@taith.cymru erbyn 2 Rhagfyr 2022, 12pm BST.



Atodiad A - Gweithgareddau prosiect – ADDYSG OEDOLION, ADDYSG BELLACH ac ADDYSG A HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL

Pa weithgareddau hoffech chi wneud cais amdanynt?

Dewiswch rhwng yr opsiynau canlynol:

- Gweithgareddau dysgwyr
- Gweithgareddau staff
- Y ddau

Os dewiswch 'Gweithgareddau dysgwyr', gallwch wneud yr is-weithgareddau prosiect dilynol:

a) Symudedd ar gyfer grwpiau
b) Symudedd cyfunol ar gyfer grwpiau
c) Symudedd ar gyfer unigolion
d) Cyfnewidiadau rhithiol ar gyfer grwpiau

a) Symudedd ar gyfer grwpiau

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd ar gyfer grwpiau.
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa fath o symudedd ar gyfer grwpiau ydych chi'n bwriadu ei gyflawni? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan ddysgwyr ar hyn o bryd? Sut byddwch chi'n sicrhau safon y profiadau symudedd ar gyfer grwpiau?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?
E.e. Rhowch fanylion yr agweddau ymarferol ar baratoi a rheoli teithiau tramor i grwpiau; sut byddwch yn sicrhau bod ystod amrywiol o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn modd cynhwysol; sut byddwch yn sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi; beth yw eich cymhareb arfaethedig o ran staff i ddysgwyr, a rôl y sefydliad(au) sy'n derbyn, ac ati.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y dysgwyr fydd yn cymryd rhan ar gyfer pob symudedd ar gyfer grwpiau?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o ganran y dysgwyr o grwpiau o dan anfantais fydd yn cymryd rhan?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o nifer y staff fydd yn cyd-deithio gyda'r dysgwyr fel rhan o symudedd ar gyfer grwpiau?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Ydych chi'n gwneud cais am symudedd mewnol ar gyfer y gweithgaredd hwn?
Dewiswch Ie neu Nage.

b) Symudedd cyfunol ar gyfer grwpiau

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd cyfunol ar gyfer grwpiau.
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa fath o symudedd cyfunol ar gyfer grwpiau ydych chi'n bwriadu ei gyflawni? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan ddysgwyr ar hyn o bryd?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?
E.e. Rhowch fanylion am sut y byddwch yn rheoli datblygiad a dull cyflwyno'r elfennau rhithiol yn ogystal â'r agweddau ymarferol ar reoli taith grŵp dramor. Sut byddwch chi'n cyfuno'r elfennau rhithiol a chorfforol a sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r amser? Beth yw eich cymhareb staff i ddysgwyr, ac ati. Sut byddwch yn monitro bod agweddau rhithiol a chorfforol y gweithgareddau hyn wedi'u cwblhau?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y dysgwyr fydd yn cymryd rhan ar gyfer pob symudedd cyfunol?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o ganran y dysgwyr o grwpiau o dan anfantais fydd yn cymryd rhan?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o nifer y staff fydd yn cyd-deithio gyda'r dysgwyr fel rhan o symudedd
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Ydych chi'n gwneud cais am symudedd mewnol ar gyfer y gweithgaredd hwn?
Dewiswch Ie neu Nage.

c) Symudedd ar gyfer unigolion

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am symudedd ar gyfer unigolion.
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa fath o symudedd ar gyfer unigolion ydych chi'n bwriadu ei gyflawni? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu

cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan ddysgwyr ar hyn o bryd? Sut byddwch chi'n sicrhau safon y profiadau symudedd ar gyfer unigolion?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?
E.e. Rhowch fanylion yr agweddau ymarferol ar baratoi a rheoli'r gweithgareddau, yn ogystal â sut byddwch yn cefnogi dysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd i gymryd rhan, gan sicrhau bod y dysgwyr unigol wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symudedd a'u cefnogi'n llawn pan maent dramor, rôl y sefydliad(au) fydd yn eu derbyn, ac ati.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y dysgwyr fydd yn cymryd rhan ar gyfer pob symudedd ar gyfer unigolion?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o ganran y dysgwyr o grwpiau o dan anfantais fydd yn cymryd rhan?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Ydych chi'n gwneud cais am symudedd mewnol ar gyfer y gweithgaredd hwn?
Dewiswch Ie neu Nage.

d) Cyfnewidiadau rhithiol ar gyfer grwpiau

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am gyfnewidiadau rhithiol ar gyfer grwpiau o ddysgwyr.
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa fath o gyfnewidfeydd rhithiol ydych chi'n bwriadu eu cyflwyno? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y dysgwyr yn eu cyflawni? Pam mai gweithgaredd cyfnewid rhyngwladol rhithiol sydd fwyaf priodol ar gyfer eich grwpiau penodol o ddysgwyr? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan ddysgwyr ar hyn o bryd? Sut byddwch yn sicrhau bod cyfnewidfeydd rhithiol yn berthnasol ac o safon?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?
E.e. Rhowch fanylion am sut byddwch yn rheoli datblygiad a dull cyflwyno cyfnewidfeydd rhithiol a sut byddwch yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny? Sut byddwch yn monitro bod cyfnewidfeydd rhithiol yn cael eu cwblhau? Amlinellwch unrhyw gynlluniau i ddefnyddio darparwyr allanol, trydydd parti ar gyfer y gweithgaredd hwn, os yw'n berthnasol.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y dysgwyr fydd yn cymryd rhan ym mhob cyfnewidfa rhithiol ar gyfer grwpiau?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Amcan o ganran y dysgwyr o grwpiau o dan anfantais fydd yn cymryd rhan?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Os dewiswch 'Gweithgareddau staff', gallwch wneud yr is-weithgareddau prosiect dilynol:

e) Dysgu Proffesiynol a Gweithgareddau'n ymwneud â Phartneriaethau Sefydledig
f) Ymweliadau paratoadol

e) Dysgu Proffesiynol a Gweithgareddau'n ymwneud â Phartneriaethau Sefydledig

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am dysgu proffesiynol a gweithgareddau'n ymwneud â phartneriaethau sefydledig.
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa ddeilliannau dysgu/datblygu ydych chi'n gobeithio bydd y staff yn eu cyflawni? Sut mae'r gweithgaredd yn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd dysgu sydd gan aelodau staff ar hyn o bryd? Sut bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad(au)?
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?
E.e. Rhowch fanylion am sut byddwch yn dewis aelodau staff i gymryd rhan, sut bydd y rhai fydd yn cymryd rhan yn cael eu cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd, a rôl y sefydliad(au) sy'n derbyn, ac ati.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y staff fydd yn cymryd rhan?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Ydych chi'n gwneud cais am symudedd mewnol ar gyfer y gweithgaredd hwn?
Dewiswch Ie neu Nage.

f) Ymweliadau paratoadol

Dewiswch Ie neu Nage. Os ydych wedi dewis Ie, atebwch y cwestiynau ansawdd canlynol:

Esboniwch pam yr ydych wedi dewis gwneud cais am ymweliadau paratoadol
E.e. Beth yw nodau ac amcanion eich sefydliad/consortiwm wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hwn? Pa sefydliad(au)/gwlad/gwledydd ydych chi'n bwriadu ymweld â nhw a beth yw diben y gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio? E.e. paratoi prosiectau cyfnewid, cynorthwyo unigolion sy'n cymryd rhan, cynllunio/cynnal asesiadau risg ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan sydd ag anableddau/Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ati.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Sut byddwch chi'n rheoli'r gweithgareddau a gynllunnir?

E.e. Rhowch fanylion am sut byddwch yn dewis aelodau staff i gymryd rhan, beth ydych yn disgwyl iddynt ei gyflawni yn ystod yr ymweliad(au), sut byddant yn cael cymorth ymsefydlu i gyflawni'r tasgau penodol a ddisgwylir yn ystod ymweliadau paratoadol, ac ati.
Dim mwy na 2500 o nodau yn yr adran hon.

Amcan o nifer y staff fydd yn cymryd rhan ym mhob ymweliad paratoadol?
Nodwch gyfanrif (integer) os gwelwch yn dda.

Ydych chi'n gwneud cais am symudedd mewnol ar gyfer y gweithgaredd hwn
Dewiswch Ie neu Nage.

Atodiad B - Y meini prawf asesu a sgorio

Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais ddangos sut maent yn bodloni'r meini prawf isod. Bwriad y meini prawf yw galluogi Taith i werthuso ansawdd y ceisiadau sy'n dod i law a rhoi sgôr gyffredinol i bob cais. Bydd pob cais yn cael ei sgorio allan o 100, ar sail y meini prawf isod a phwysoliadau.

Er mwyn i sefydliadau gael eu hystyried yn gymwys i gael grant, mae'n rhaid iddynt:

- Sgorio o leiaf 60 allan o 100
- Ennill o leiaf hanner y pwyntiau sydd ar gael fesul maen prawf

Bydd sefydliadau sy'n llwyddo i wneud yr uchod yn cael eu hystyried yn gymwys i gael grant. Fel arall, bydd eu cais yn cael ei ystyried yn aflwyddiannus. Bydd adborth yn cael ei roi i bob sefydliad a gyflwynodd gais aflwyddiannus.

Bydd pob sefydliad yr ystyrir ei fod yn gymwys i gael grant yn cael ei restru yn ôl ei sgôr. Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu yn ôl trefn y sefydliadau, nes bod y gyllideb sydd ar gael wedi'i neilltuo'n llawn.

Meini prawf ar gyfer Llwybr 1 – Symudedd	
Perthnasedd ac ansawdd amcanion y gweithgareddau a chynlluniau ar eu cyfer (hyd at 40 o bwyntiau)	• Mae'r gweithgareddau arfaethedig yn berthnasol i amcanion Taith (Llwybr 1) ac o werth i'r sefydliad sy'n gwneud cais. • Mae'r graddau y mae'r gweithgareddau'n diwallu anghenion a nodwyd ymhlith yr unigolion sy'n cael eu targedu wedi'u dangos mewn ffordd glir a phendant. • Mae perthnasedd a manteision cynnal y gweithgareddau drwy gonsortiwm wedi'u dangos yn glir (ar gyfer ceisiadau gan gonsortia). • Mae'r sefydliadau partner dramor a nodwyd yn y cais yn briodol ac yn berthnasol i'r gweithgareddau arfaethedig a'r canlyniadau yr hoffai'r sefydliad eu gweld, ac mae'r rhesymau dros ddewis y gwledydd yn glir. Mewn achosion lle nad yw sefydliadau partner dramor wedi'u nodi, mae'r cynlluniau ar gyfer eu nodi ac ymgysylltu â nhw'n ystyriol ac yn briodol. • Mae dulliau arfaethedig o reoli lleoliadau cyfnewid i mewn i Gymru'n ystyriol, yn briodol ac yn amlwg yn ychwanegu gwerth at y gweithgareddau.

	• Mae'r sefydliad wedi dangos bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol i gynnal y gweithgareddau. Mae wedi dangos bod dulliau o reoli'r gweithgareddau o ddydd i ddydd, rheoli cyllid, rheoli lleoliadau cyfnewid a rhoi cymorth i'r unigolion yn ystyriol ac yn briodol. • Mae dulliau arfaethedig o fonitro'r gweithgareddau a chasglu a defnyddio adborth yr unigolion, gan gynnwys cynlluniau i werthuso canlyniadau ar bob lefel, yn gynhwysol ac yn realistig. • Nodwyd proses briodol ar gyfer nodi a rheoli risgiau (ac amgylchiadau eithriadol) wrth gynnal y gweithgareddau.
Ansawdd y gweithgareddau arfaethedig (hyd at 35 o bwyntiau)	• Mae'r gweithgareddau arfaethedig wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac maent yn diwallu anghenion a nodwyd. • Bydd amcanion y gweithgareddau'n cael eu cyflawni mewn ffordd realistig. Nodwyd cynllun clir ac amserlen ar gyfer yr holl weithgareddau. • Rhoddwyd esboniad clir o'r hyn sydd ynghlwm wrth bob gweithgaredd a rhesymau dros y cydbwysedd rhwng y mathau gwahanol o weithgareddau. • Mae'r sefydliad wedi dangos i ba raddau y mae'r gweithgareddau'n rhai newydd neu'n ategu ei arferion presennol, neu os yw'n adeiladu ar arferion presennol, wedi dangos ymagwedd arloesol ac ymrwymiad i welliant parhaus. • Dangoswyd i ba raddau y bydd y gweithgareddau'n sicrhau deilliannau dysgu o ansawdd uchel i'r unigolion. • Nodwyd yn glir pa unigolion y mae pob gweithgaredd yn eu targedu. Nodwyd prosesau priodol a chynhwysol ar gyfer helpu'r unigolion i gyfranogi, a hynny mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i wireddu potensial llawn y profiad. • Esboniwyd yn glir beth yw priod rolau pob sefydliad (y sefydliad sy'n gwneud cais a'r sefydliad(au) a fydd yn derbyn yr unigolion) yn rhan o bob gweithgaredd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer lleoliadau cyfnewid i mewn i Gymru, yn ôl yr angen. • Esboniwyd pa gamau a gaiff eu cymryd i helpu i baratoi'r unigolion cyn y gweithgareddau a pha gymorth a gaiff ei roi yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau.

Ymrwymiadau trawsbynciol Taith (hyd at 25 o bwyntiau)	• Nodwyd dulliau clir o gyfathrebu a dulliau priodol o hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i unigolion, gan gynnwys y rhai o grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol. • Mae'r sefydliad wedi diffinio'n glir pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n eu targedu. Mae wedi rhoi gwybodaeth am y rhwystrau a nodwyd i ehangu cyfranogiad ymhlith y grwpiau hynny ac wedi amlinellu camau priodol i oresgyn y rhwystrau. • Nodwyd ymrwymiad a chynlluniau clir i helpu'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndir difreintiedig yn benodol i gyfranogi. • Mae'r sefydliad wedi dangos y bydd yn cymryd camau diogelu / gofalu priodol yn rhan o'r holl weithgareddau, ac mae ganddo gynllun ystyriol a phriodol i sicrhau y bydd pob unigolyn yn cael ei gefnogi. • Nodwyd dulliau amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol o gynnal y gweithgareddau, gan gynnwys cynlluniau clir a diriaethol i sicrhau teithio cynaliadwy. • Nodwyd dulliau clir ac effeithiol o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan o'r gweithgareddau, gan gynnwys dulliau o godi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang.

Taith.cymru

Taith.wales